



Derbyniwyd 7 ymgais ar gyfer y Goron eleni. Diolch yn fawr i bob un o'r ymgeiswyr am eu gwaith - fe wnaeth y ddwy ohonom wir fwynhau darllen pob un ohonynt. Nid peth hawdd yw mentro anfon darn o waith i'w feirniadu.

Dyma air byr am bob ymgeisydd yn y drefn y daethant o'r amlen (mewn ffordd o siarad, roedd popeth yn digwydd ar-lein eleni)

Pawb. Roedd yma ddau brif ran - casgliad o lèn micro ac yna stori hirach - ac er i ni fwynhau gwahanol ddarnau byddai wedi bod yn braf gweld llinyn cyswllt cryfach rhyngddynt.

Blodyn Haul. Cyflwyna ymson ymladdwr ifanc yn Wcráin, ac mae'n ddarn o waith effeithiol heb fod yn orddramatig.

Ffridd Rhandir. Boddi Llanwddyn yw cefndir y darn hwn sydd yn cyfuno ffrwyth ymchwil ffeithiol gyda ffuglen.

Le Ch'ti. Ymson person ifanc sydd ag anhwylder bwyta ac yn cael ei effeithio gan y cyfryngau cymdeithasol gawn ni gan Le Ch'ti. Mae'r arddull yn naturiol a llafar ac mae'n hawdd iawn credu yn y cymeriad.

Pysgodyn Aur. Mae hwn yn ddarn gwahanol iawn yn llawn hiwmor tywyll a swreal a apeliodd yn fawr at y ddwy ohonom o'r darlleniad cyntaf.

Rala Rwdins. Dyma stori gyffrous am ddial a llofruddiaeth, a braf gweld darn wedi'i osod yn gredadwy yng nghefn gwlad.

Salima. Ymson llafar a naturiol arall, a'r diwedd annisgwyl a thrawiadol yn peri i'r darllenydd ailystyried yr hyn roedd wedi'i ddarllen, ac efallai ailystyried pethau mae'n cymryd yn ganiataol.

Bu cryn drafodaeth pwy oedd yn cael y drydedd wobr, ond yn y diwedd penderfynwyd ei rhoi i Le Ch'ti. Ac fe hoffem roi'r ail wobr i Salima. Dyma ddau ymgeisydd a greodd gymeriadau a fydd yn aros yn y cof.

Ac roeddem yn hollol gytûn bod y wobr gyntaf, a choron Eisteddfod Dinbych, yn mynd i Pysgodyn Aur - llenor aeddfed a chrefftus wnaeth ein tywys ar daith wallgof a gwahanol. Llongyfarchiadau mawr iddo fo neu hi.

